

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10ed o Orffennaf 2018.

- 1. Presennol:** Ffion Jonse (Cadair) – Nantlle; Harry Wyn Owen – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Justin Davies – Penygroes; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir; Roland Evans – Cyngor Gwynedd (eitem 3) / **Ymddiheuriadau:** Iona Jones – Penygroes ; Craig ab Iago – Cyngorydd Sir.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Justin Davies a Judith Humphreys – Cais am arian Baneri Dyffryn Nantlle.
- 3. Gwadd – Roland Evans – Uwch Reolwr Economi a Chymuned – Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi.** Cafwyd cyflwyniad Power Point hynod ddiddorol gan Mr Evans – byddai cynllun fel hyn yn creu buddion economaidd a chymunedol i ardaloedd y llechi – addysg, sgiliau, gwirfoddoli. Gwefan www.llechi.cymru ebost llechi@gwynedd.llyw.cymru . Cafwyd cyfle i holi Mr Evans – gofynwyd os oes rhywun ar waith yn edrych ar gynlluniau i Dyffryn Nantlle – Cyngor Gwynedd yn awyddus i gydweithio - efo grwpiau sydd yn bodoli yn barod, a nid creu grwpiau newydd, Diolchwyd Roland Evans am ymweld a'r Cyngor heno.
- 3a. Mater Brys ar gais y Cadeirydd – Ymddiswyddiad Cyngorydd Talysarn** – derbyniwyd ebost gan Sharon Wynne Jones yn ymddiswyddo fel cynrychiolydd Talysarn – gofynwyd i'r Clerc yrru ati i ddiolch, a gresyn fydd ei cholli oddi ar y Cyngor. Yn ogystal, bydd rhaid hysbysu sedd arall wag yn Talysarn, gan i'r Aelod arall fethu mwy na chwech cyfarfod yn olynol. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mehefin.** OP Huws yn datgan cywirdeb y cofnodion, pawb yn cytuno.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith Humphreys. Barry yn holi am wella edrychiad y 'cert' ar y gylchfan ym Mhenygroes e.e paentio'r llythrennau arni, a chydabod pa mor hardd mae'r blodau yn edrych yn Bontnewydd. Darllenwyd ebost Craig ab Iago.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Sedd wag Talysarn angen hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 7. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd a llofnodwyd.
- 8. Materion Pentrefi.** Pobl ifanc yn Dorothea. Cwyn wedi ei dderbyn yn ystod y mis am blant yn mynd i'r dwr yn Dorothea. Paswyd y pryderon ymlaen i'r perchnogion. **Talysarn** Ystafelloedd newid – llechi wedi malu a drws wedi malu, angen newid y meter trydan. Gyrru llythyr i Scottish Power, a chopi o'r ebost i Dylan Herbert. Holi os oes corff gan y Tim Peldroed i drosglwyddo prydles yr adeilad iddynt. **Penygroes** Cwyn fod seiren Ysgol Dyffryn Nantlle llawer yn rhy uchel. Ffens wedi torri yn Cae Cwtin – edrych ar y cyllid y flwyddyn ariannol nesaf. **Nebo a Nasareth** Pwyllgor Pentref Nebo wedi bod mewn trafodaethau gyda Dwr Cymru a Natur Cymru ynglyn a'r Caenglwm Siapaneaidd sydd ar Gors y Llyn. Yn ol y map o'r Gors, mae'n dir comin sy'n ymledu dros ardal Cyngor Cymuned Llanllyfni a Cyngor Cymuned Clynnog. Y Clerc wedi derbyn ebost gan y Parc Cenedlaethol yn holi am y ffiniau. **Nantlle** Tai Nantlle am fynedfa Dorothea – drain ac yn y blaen yn gwthio'r biniau ac ati i ganol y lon.
- 9. Cynllunio.** C18/0535/22/LL – Yr Hen Fanc, Ty Iorwerth, Penygroes - newid defnydd ac addasu llawr gwaelod cyn fanc i ddefnydd cymysg - cymeradwyo; C09A/0046/22/MW – Chwarel Ty Mawr West – cais i amrywio amodau er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu - cymeradwyo. Cais i ddiddymu amod caniatad cynllunio Co-op – gofyn am fwy o wybodaeth er mwyn gwell dealltwriaeth.
- 10. Cyfarfodydd is-bwyllgor.** Mynwentydd / Estyniad MacPelah – Harry a Barry wedi ymweld a cyn - berchennog tir MacPelah. Camddealltwriaeth efo geiriad y llythyr a yrrwyd gan y Cyngor. Y Clerc i yrru i ymddiheuro. Argymhelliad yr is-bwyllgor i'r Cyngor llawn oedd cael wal A ar y cynllun wedi ei adeiladu i uchdwr o 1.5m yn unol a'r hyn a ganiatawyd yn y cais cynllunio – golygai hyn bydd y gost yn uwch (ebost YGC). Trafodwyd y cyllid, a'r arian sydd wrth gefn - Barry yn cynnig, a Justin yn eilio a **phenderfynwyd** yn unfrydol mynd ati a chario ymlaen i ddatblygu'r brosiect. Ymgynghoriaeth Gwynedd yn tendro'r gwaith – pawb yn cytuno. Bydd angen edrych ar Cam 2 o'r brosiect, a gobeithio cael cyfarfod safle yn y fynwent mis Awst er mwyn trafod y llwybrau yn y fynwent, tap dwr, biniau, man parcio ac yn y blaen/ Delwedd Dyffryn Nantlle – cyfarfod yfory / RWP – grwp wedi cyfarfod, ac wedi gyrru i'r banc i holi am yr hen gyfrif

– ymateb oedd bod angen tystysgrifau marwolaeth i'r cyn-lofnodwyr ar y cyfrif banc. OP yn bwriadu mynd i edrych drwy'r hen gofnodion yn Aberystwyth / Gwasanaeth Ieuencid Dyffryn Nantlle – wedi trafodaeth a chyflwyniad yn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor dydd Mawrth diwethaf, **penderfynwyd** treialu am flwyddyn ar y dealltwriaeth na fyddai yn costio dim i'r Cyngor Cymuned ac mai Cyngor Gwynedd fydd yn ariannu. Bydd hyn yn gyfle i bonito rhwng yr hen drefniant ac unrhyw drefniant newydd fydd yn datblygu. Justin yn cefnogi trafod codi praecept fis Ionawr i ariannu yn y dyfodol, a chodi is-bwyllgor gyda chynnig i'r plant gymryd rhan. Bydd angen craffu yn ofalus.

11. **Gohebiaeth.**

***Cyngor Gwynedd:**

*Ymaebion i Gwynion – Nasareth (arwydd) – wedi ei godi yn ei ol; Lon Talymignedd – ar raglan clytio; Cyffordd Nasareth – angen cysylltu efo'r Llywodraeth; Llinellau melyn Penygroes – Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i hyn; Plastigion mynwentydd – dim ymateb eto. Darllenwyd yr ymatebion. Gofynwyd i'r Clerc yrru eto ynglyn a lleoliad newydd arwydd pentref Llanllyfni a gofyn iddo gael ei symud.

*Deddf Rheoli Trafnidiaeth – cau ffordd Bryn Llifon, Penygroes – er gwybodaeth.

*Rhaglen Waith Priffyrdd – er gwybodaeth.

*Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – er gwybodaeth. Manylion ar y we yn ogystal.

*Ateb Cyngor Gwynedd parthed adolygiad trefniadau rheolaethol Parc Glynlifon – er gwybodaeth.

*Gofal Plant Gwynedd ac Ynys Mon – er gwybodaeth.

*Hysbysiad o Gais Trwyddedu Antur Nantlle, y Banc, Heol y Dwr, Penygroes. Cymeradwyo.

***Arall**

*Un Llais – Datganiad Tawel Fan ; Calendr Ymarferion Da Swyddfa Archwilio Cymru ; Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ; Micro-Grantiau Sul y Cofio ; Datganiad i'r Wasg – Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ; Swyddi Cyllid ; Cyfarfod Tlodi Gwledig yng Nghymru 13/7 Bangor ; Newyddion Un Llais; Modiwl Rheoli Gwybodaeth; Chwarae Cymru; Adolygiad Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol; Gofynion cynllunio mewn perthynas a defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd; Enwebiadau Coeden Gymreig y Flwyddyn. Dim sylwadau.

*Parc Cenedlaethol Eryri – Nosweithiau Awdurdod y Parc. Er gwybodaeth.

*Ebost parthed cae pel droed Talysarn / ystafelloedd newid - diweddariad. Cysylltu efo Scottish Power am y mesurydd trydan. Ddim yn addas i'r Cyngor Cymuned ddelio gydag arian prosiect, cefnogol i gae pel droed ieuencid. Tir Cyngor Gwynedd felly argymhell gofyn caniatad wrth Gyngor Gwynedd.

*Propel – cyfarfod 22/6 (wedi bod)

*Manylion cyswllt cyfieithydd er gwybodaeth.

*Warden Cynorthwyol Parc Cenedlaethol Eryri – ymholiad parthed tir comin Nebo.

12. Goleuadau Nadolig Pawb yn cefnogi symud ymlaen i gael bocsus ar y lampau stryd ar gyfer goleuadau Nadolig, a derbyn pris Cyngor Gwynedd – cysylltu efo Emyr Williams a gofyn am gynllun o leoliadau lampau stryd Penygroes, Llanllyfni, Talysarn, Nantlle a Nebo.

13. Llwybrau a Mynwentydd. Ffigyrau claddu Gorphwysfa – edrych eto fis Rhagfyr; Llwybr PontCrychddwr – cwyn fod y llwybr angen ei thorri – cysylltwyd efo'r contractwyr; Facebook – cwyn am flerwch mynwent St Rhedyw (chwynladdwr wedi ei roi); Arwyddion – Harry am ofyn wrth y contractwyr am osod polyn, a threfnu gosod yr arwydd yn St Rhedyw. Gofyn am arwydd ychwanegol i St Rhedyw i'w osod ar ffens/giat. Arwyddion Gorphwysfa a MacPelah wedi eu gosod yn eu lle ; Llwybr 61 o Lon Talgarnedd at yr afon angen ei thorri.

Justin a Judith yn gadael y cyfarfod (wedi datgan diddordeb am y cais isod am faneri).

14. Materion yn ymwed a'r heddlu.

15. **Materion ariannol***Anfonebau: A Johnson – derbynebau; A Johnson – Ffon/Rhyngwryd; Scottish Power £34.80 a 44.92 - derbyn; Cais am arian - Baneri Dyffryn Nantlle – cais am £250 ar gyfer baneri i godi delwedd pentref Penygroes - **penderfynwyd cyfrannu** (pennawd cyllid - cyfraniadau ariannol).